8042-31

# City & Guilds Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed ar y Safle

C00/5389/3

## Llawlyfr Cymwysterau - DRAFFT

**Ymwadiad:** Fersiwn ddrafft o'r canllaw llawlyfr yw hwn a gallai'r cynnwys newid. Bydd fersiwn derfynol y llawlyfr yn cael ei chyhoeddi ym mis Medi 2026 ar ôl cael cymeradwyaeth lawn gan Cymwysterau Cymru.

**Fersiwn 1 Xxxxxxx 2026**



Cynnwys


**Diben y cymhwyster** 4

**Nodau ac amcanion y cymhwyster** 5

**Strwythur y cymhwyster** 6

**Darparu'r cymhwyster** 9

**Crynodeb o'r asesiad** 13

**Manylebau Asesu** 16

**Allwedd cynnwys** 17

**Cynnwys yr uned** 19

Uned 250: Arferion gweithleoedd adeiladu yng Nghymru 20

Uned 251: Cynllunio ac adolygu gwaith yn y sector adeiladu 24

Uned 252: Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle 27

Uned 253: Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol 32

Uned 254: Symud, trin neu storio adnoddau 36

Uned 259: Gwybodaeth graidd am Waith Coed ar y Safle 40

Uned 260: Gosod cydrannau'r ffics cyntaf 45

Uned 261: Gosod cydrannau'r ail ffics 50

Uned 262: Codi cydrannau fframwaith strwythurol 56


DRAFT

## Gwybodaeth am y fersiwn

| Fersiwn a dyddiad cyhoeddi | Newidiadau |
|---|---|
| v1 XXXX 2026 | Dogfen wreiddiol |

DRAFFT

# Diben y cymhwyster

| | Disgrifiad |
|---|---|
| I bwy mae'r cymhwyster? | Mae'r cymhwyster City & Guilds Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed ar y Safle wedi'i ddylunio i alluogi dysgwyr mewn lleoliadau dysgu seiliedig ar waith i ddatblygu a gwella'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o waith coed ar y safle. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu eu dealltwriaeth o arferion gweithleoedd adeiladu yng Nghymru, gan gynnwys cynaliadwyedd ac ystyriaethau amgylcheddol.<br><br>Mae wedi'i anelu at ddysgwyr sydd naill ai wedi ennill cymhwyster Sylfaen a/neu'r cymhwyster/cymwysterau Dilyniant 8042 Lefel 2 mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu, neu sy'n cwblhau'r asesiadau a'r dysgu yn ystod eu prentisiaeth. Bydd y cymhwyster hwn, ynghyd â chadarnhad y cyflogwr, yn galluogi dysgwyr i gael eu profi i fod yn fedrus yn alwedigaethol.<br><br>Mae'n addas ar gyfer:<br>• dysgwyr 16+ oed sy'n gweithio yn y sector adeiladu ar hyn o bryd. |
| Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys? | Bydd y cymhwyster yn galluogi dysgwyr i gynllunio a chyflawni prosiectau gwaith coed ar y safle, yn unol â safonau galwedigaethol sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, cyn adolygu ansawdd allbynnau'r prosiect.<br><br>Mae'n cynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>• gweithio yn y sector adeiladu<br>• deddfwriaeth berthnasol<br>• tasgau gwaith coed ar y safle<br><br>a sgiliau mewn<br>• dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio adnoddau<br>• mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol<br>• gosod cydrannau'r ffics cyntaf<br>• gosod cydrannau'r ail ffics<br>• codi cydrannau fframwaith strwythurol |
| Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer dilyniant? | Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster, ynghyd â chadarnhad y cyflogwr o ran cymhwysedd galwedigaethol, yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddysgwyr allu gweithio ym maes gwaith |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | coed ar y safle ledled y DU. Gall dysgwyr hefyd symud ymlaen i gymhwyster Gwaith Coed ar y Safle Lefel 3. |
| Gyda phwy ydyn ni wedi datblygu'r cymhwyster? | Mae'r cynnwys wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, canolfannau a chyflogwyr ar draws y sector. |

## Nodau ac amcanion y cymhwyster

Mae'r Cymhwyster Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed ar y Safle yn galluogi dysgwyr i ddatblygu'r canlynol:

- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r sector adeiladu yng Nghymru, gan gynnwys egwyddorion amgylcheddol perthnasol
- gwybodaeth a dealltwriaeth galwedigaethol o waith coed ar y safle, gan gynnwys yr offer, y technegau, y deunyddiau a'r technolegau a ddefnyddir yn y grefft
- sgiliau ar gyfer gweithio'n ddiogel ac yn gynhyrchiol yn y sector adeiladu
- gallu cynllunio gwaith yn effeithiol i gwblhau tasgau gwaith coed ar y safle mewn amgylchedd gwaith
- perfformiad galwedigaethol mewn gwaith coed ar y safle
- gallu adolygu allbynnau eu gwaith coed ar y safle yn effeithiol.

DRAFT

# Strwythur y cymhwyster

## Rheolau cyfuno

Er mwyn ennill cymhwyster **City & Guilds Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed ar y Safle**, rhaid i ddysgwyr ymgymryd â'r **holl** unedau a restrir isod a chael gradd **Pasio** neu uwch yn y **ddau** ddull asesu.

**Cyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad: 441 (i'w gadarnhau)**

| Rhif yr uned | Teitl yr uned | Oriau Dysgu dan Arweiniad |
|---|---|---|
| 250 | Arferion gweithleoedd adeiladu yng Nghymru | 36 |
| 251 | Cynllunio ac adolygu gwaith yn y sector adeiladu | 23 |
| 252 | Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle | 40 |
| 253 | Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol | 15 |
| 254 | Symud, trin neu storio adnoddau | 10 |
| 259[1] | Gwybodaeth graidd am Waith Coed ar y Safle | 55 |
| 260 | Gosod cydrannau'r ffics cyntaf | 80 |
| 261 | Gosod cydrannau'r ail ffics | 80 |
| 262 | Codi cydrannau fframwaith strwythurol | 70 |
| | Pob math o asesiad | 32 |
| | Cyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad (gan gynnwys unedau ac asesu): | 441 (i'w gadarnhau) |

[1] Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun unedau 260-262.

## Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH) a'r Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT)

Mae'r Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o ddysgu ac asesu dan oruchwyliaeth sy'n ofynnol i ddarparu'r uned, a gellir eu defnyddio at ddibenion cynllunio.

Cyfanswm Oriau Cymhwyso (TQT) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y mae disgwyl i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sy'n cael eu rhestru ar wahân) a'r oriau sy'n cael eu treulio'n paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Caiff credyd ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla sy'n hafal i werth y cyfanswm oriau cymhwyso wedi'i rannu â 10.

Mae manylion y cyfanswm oriau cymhwyso ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u nodi isod.

| Cymhwyster | Cyfanswm Oriau Cymhwyso | Credydau |
|---|---|---|
| City & Guilds Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed ar y Safle | 476 (i'w gadarnhau) | 47 (i'w gadarnhau) |

DRAFT

## Gofynion ar y ganolfan

Bydd angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau wrth ddesg ac wyneb yn wyneb.

I ennill cymeradwyaeth fel canolfan, mae'n rhaid i'r sefydliad allu bodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo canolfannau. Mae'r gofynion cymeradwyo ar gyfer y cymhwyster hwn ar gael yn ein dogfennau Safonau Sicrhau Ansawdd ar wefan City & Guilds.

Cynghorir darpar ganolfannau i gael cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster, fel bo'n briodol, cyn dechrau darparu'r cymhwyster.

Mae City & Guilds yn anelu at ddod i benderfyniad ynghylch cymeradwyo canolfannau a chymwysterau cyn pen 30 diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais cyflawn, ac mae pedwar canlyniad posibl:

- rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan a'r cymhwyster
- rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar ddatblygu cynllun gweithredu
- peidio â rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan na'r cymhwyster hyd nes y datblygir cynllun gweithredu
- peidio â rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan na'r cymhwyster.

Ystyrir bod y ganolfan a'r cymwysterau wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn ysgrifennu at y ganolfan yn cadarnhau'r statws, a dim cyn hynny.

Bydd gofyn i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn, a bodloni'r gofynion penodol ar ganolfannau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon, o ran cymhwysedd staff darparu ac asesu. Bydd y gofynion hyn yn cael eu gwirio a'u monitro fel rhan o'r broses o gymeradwyo cymwysterau a'r gwaith parhaus o fonitro'r cymhwyster hwn.

DRAFT

## Cofrestru, cyhoeddi canlyniadau ac ardystio

Ewch i wefan City & Guilds i gael manylion ynghylch y prosesau, yr amserlenni a'r gweithdrefnau ar gyfer cofrestru ac ardystio cymwysterau.

## Sicrhau ansawdd

*Yn amodol ar ymgynghori pellach*

# Darparu'r cymhwyster

## Gofynion mynediad i ddysgwyr

Nid yw City & Guilds yn gosod unrhyw ofynion mynediad ar gyfer y cymhwyster hwn. Rhaid i ganolfannau wneud yn siŵr bod gan ddysgwyr y potensial a'r cyfle i lwyddo i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus.

Os yw'n cael ei gwblhau fel rhan o brentisiaeth, yna mae'n rhaid bodloni gofynion penodol fel rhan o'r fframwaith prentisiaethau.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy Walled Garden. Mae mwy o wybodaeth ar wefan City & Guilds.

### Cyfyngiadau oedran

Nid oes modd i City & Guilds dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed, gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer unigolion o dan 16.

## Asesiad cychwynnol a chynefino

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn i'w raglen ddechrau er mwyn nodi'r canlynol:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol
- y cymorth a'r arweiniad a allai fod eu hangen arno pan fydd yn gweithio tuag at ei gymhwyster
- unrhyw ddysgu maen nhw wedi'i gwblhau yn barod os yw'n berthnasol i'r cymhwyster
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Rydym yn argymell bod canolfannau'n darparu rhaglen gynefino er mwyn i'r dysgwr allu deall yn llawn beth yw gofynion y cymhwyster, beth yw ei gyfrifoldebau fel dysgwr a beth yw cyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

## Deunyddiau ategol

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

| Disgrifiad | Sut mae cael gafael arno |
| --- | --- |

| | |
|---|---|
| Pecyn Asesu | https://www.skillsforwales.wales/cy/cymwysterau |
| Sampl Lefel 2 prawf ar y sgrin – Gwaith Coed ar y Safle:<br>8042-403 (Saesneg)<br>8042-453 (Cymraeg) | Llwyfan ar-lein e-volve, y gellir ei archebu drwy Walled Garden |

DRAFFT

## Sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i ganolfannau gael strategaeth ysgrifenedig ar gyfer sicrhau ansawdd yn fewnol.

Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol:
- yn darparu cywirdeb a chysondeb rhwng aseswyr wrth ddefnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennau'r cymhwyster a/neu'r dogfennau asesu
- yn effeithlon ac yn gost-effeithiol.

## Cymedroli'r trefniadau asesu mewnol

Mae prosesau sicrhau ansawdd allanol ar waith er mwyn gwirio dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu a wneir gan staff canolfannau, fel sy'n briodol ar gyfer y cymhwyster hwn.

Bydd y Prosiect Ymarferol yn cael ei asesu'n fewnol, ei fonitro ar sail risg a'i samplo gan aseswyr ansawdd allanol i sicrhau bod penderfyniadau asesu'r ganolfan yn ddilys a chyson. Swyddogion cyswllt asesu sy'n meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol fydd yn cynnal y gwaith sicrhau ansawdd. Bydd City & Guilds yn darparu adborth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer pob achos o samplo at ddibenion sicrhau ansawdd.

Bydd City & Guilds yn ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio sylweddol, neu feysydd pryder a nodir yn ystod gwaith monitro allanol. Mae'n bosib y bydd camau gwella priodol a/neu gosbau yn cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r gwaith yma. Mewn rhai achosion, gall ymchwiliadau arwain at ddadgofrestru'r ganolfan/canolfannau dan sylw.

### Apeliadau mewnol

Rhaid i ganolfannau gael proses fewnol ar waith i ddysgwyr apelio yn erbyn y radd a roddir i asesiadau sydd wedi cael eu marcio'n fewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau y mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau sydd wedi'u hasesu'n fewnol, oherwydd bydd angen y rhain arnynt er mwyn penderfynu a ydynt am apelio neu beidio.

### Camymarfer

Cyfeiriwch at nodiadau cyfarwyddyd City & Guilds *Rheoli achosion lle ceir amheuaeth o gamymarfer mewn arholiadau ac asesiadau*. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ganfod a rhoi gwybod am gamymarfer gan ddysgwyr a/neu staff canolfannau a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr a chanolfannau ac mae'n egluro cyfrifoldebau staff y ganolfan i roi gwybod am gamymarfer go iawn neu amheuaeth o gamymarfer. Mae'r ddogfen hon ar gael i'r canolfannau ar wefan City & Guilds.

Ceir enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr isod (noder nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr):
- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau
- llên-ladrad o unrhyw fath
- cyd-gynllwynio ag eraill, copïo gwaith dysgwr arall (gan gynnwys defnyddio TGCh i'w helpu i gopïo), neu ganiatáu i rywun gopïo ei waith,
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol
- ffugio datganiadau dilysrwydd yng nghyswllt asesiadau
- esgus bod yn rhywun arall.

Gallai'r gweithredoedd hyn gyfrif fel camymarfer, a bydd cosb (ee anghymhwyso o'r asesiad) amdanynt.

## Trefniadau mynediad

Mae trefniadau mynediad yn addasiadau sy'n caniatáu i unigolion ag anghenion ychwanegol ac anafiadau dros dro gael mynediad at yr asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Mae'n rhaid gwneud y trefniadau hyn cyn cynnal yr asesiad.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau y bydd dysgwyr yn gallu cael mynediad at holl ofynion y cymhwyster, a hynny ar ddechrau'r rhaglen.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y dogfennau: *Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) a Trefniadau mynediad - pryd a sut mae angen cyflwyno ceisiadau i City & Guilds*. Mae'r ddwy ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds yn: Gwefan City & Guilds

## Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr sydd wedi cael salwch dros dro, anaf neu anhwylder ar adeg yr asesiad.

Dylai ceisiadau ar gyfer naill ai trefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig gael eu cyflwyno i City & Guilds gan swyddog arholiadau'r ganolfan. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch fersiwn gyfredol y ddogfen JCQ, Arweiniad i'r broses ar gyfer ystyriaeth arbennig. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds: Gwefan City & Guilds

DRAFT

## Crynodeb o'r asesiad

Mae **City & Guilds Adeiladu (Lefel 2) – Gwaith Coed ar y Safle** yn cael ei asesu gan ddefnyddio dau ddull asesu:

| Elfen asesu | Math o asesiad | Dull asesu |
|---|---|---|
| 8042-712 (Saesneg)<br>8042-762 (Cymraeg) | Asesiad Ar-sgrin | Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol |
| 8042-713 | Prosiect Ymarferol | Wedi'i osod yn fewnol, ei asesu'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol |

Graddau'r cymhwyster hwn yw Pasio/Teilyngdod/Rhagoriaeth.

Gallwch lwytho pecyn asesu i lawr sy'n disgrifio gofynion yr asesiad oddi ar [wefan Sgiliau i Gymru].

Mae manylion ynglŷn â sut mae pob asesiad yn ymdrin â chynnwys y cymhwyster ym manylebau asesu'r Pecyn Asesu.

## Graddio'r cymhwyster

Y graddau ar gyfer y cymhwyster hwn yw **Pasio/Teilyngdod,/Rhagoriaeth.** Os bydd dysgwr yn methu unrhyw un o'r ddau asesiad, ni fydd yn ennill y cymhwyster.

Mae manylion ynghylch sut y gellir ennill y graddau ar gael yn y Pecyn Asesu.

## Amseru a chamau'r asesu

Rhaid dilyn y canlynol wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid ymgymryd â phob uned, a rhaid cwblhau ac asesu pob un o'r gofynion perthnasol yn ystod y cyfnod y mae'r dysgwr wedi cofrestru.

Gellir asesu yn ôl y galw; rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr wedi ymgymryd â phob dysgu gofynnol a'u bod wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer ymgymryd â phob asesiad.

Gellir llenwi Cadarnhad y Cyflogwr ochr yn ochr neu ar ôl y Prosiect Ymarferol.

## Rhyddhaucanlyniadau

### Asesiad ar-sgrin

Mae'r prawf Ar-sgrîn yn cael ei awto-farcio a bydd y ganolfan yn derbyn y canlyniadau ar yr un diwrnod ag y cwblheir yr asesiad. Bydd proses rhyddhau canlyniadau'n cael ei dilyn gan City & Guilds pan fydd fersiynau newydd o asesiadau'n cael eu rhyddhau.

### Prosiect Ymarferol

Mae Prosiectau Ymarferol yn cael eu marcio'n fewnol a'u dilysu'n allanol. Mae gradd dros dro yn cael ei dyfarnu yn dilyn asesiad mewnol gan ddefnyddio'r tablau graddio sydd yn y Pecyn Asesu, ac yna'n cael ei chyflwyno i City & Guilds drwy Walled Garden.

Rhoir gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

### Canlyniadau cyffredinol y cymhwyster

Rhaid rhoi graddau dros dro i ddysgwyr ar gyfer y Prosiect Ymarferol cyn pen wythnos i'w gwblhau. Dylid rhoi canllawiau ar natur dros dro'r canlyniadau hyn, gan gydnabod y bydd eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n fewnol ac allanol a gradd derfynol ar gyfer y cymhwyster yn cael ei rhoi gan City & Guilds.

Rhoir gwybod i ganolfannau beth yw graddau terfynol y cymhwyster ar ôl cwblhau'r gwaith sicrhau ansawdd allanol. Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei dderbyn cyn pen wyth wythnos i'r ganolfan gyflwyno canlyniadau'r dysgwyr ar gyfer y Prosiect Ymarferol (ar ôl cwblhau'r asesiad Ar-sgrin).

## Ailgyflwyno/Ailsefyll asesiad

Os nad yw'r dysgwr yn llwyddo i gwblhau'r Asesiad Ar-sgrin neu'r Prosiect Ymarferol yn llwyddiannus, mae ganddo hawl i ailsefyll/ailgyflwyno.

Mae arweiniad ar y gweithdrefnau ailsefyll/ailgyflwyno ar gyfer pob asesiad ar gael yn y Pecyn Asesu ar gyfer y cymhwyster hwn y gellir ei lwytho i lawr oddi ar wefan City & Guilds.

Os oes angen i ddysgwr ail-sefyll neu ailgyflwyno unrhyw un o'r asesiadau, rhaid rhoi adborth a chymorth priodol fel bo'r dysgwr yn gallu gwneud hynny o fewn amserlen briodol.

Os nad yw dysgwr yn bodloni'r meini prawf graddio gofynnol, dylai'r ganolfan weithio gyda'r dysgwr i roi sylw i'r meini prawf a fethwyd a chyfleoedd ar gyfer gwella a'i gefnogi i baratoi i gyrraedd y safon ofynnol.

Os nad yw dysgwyr yn hapus â chanlyniadau eu hasesiad, dylent gael gwybod am eu hawl i apelio.

DRAFT

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r dysgwr. Nid oes cyfyngiad ar faint o weithiau y gall dysgwr ail-sefyll neu ailgyflwyno.

Am fwy o fanylion am sut i ailgyflwyno / ail-sefyll unrhyw asesiadau penodol, dylid darllen yr wybodaeth yn y Pecyn Asesu.

## Cydnabod dysgu blaenorol (CDB)

Ystyr cydnabod dysgu blaenorol yw defnyddio profiad blaenorol neu gymwysterau unigolyn, sydd wedi'u hennill yn barod, er mwyn cyfrannu at gymhwyster newydd. Gellir defnyddio CDB i eithrio dysgwyr o feysydd dysgu a gyflawnwyd yn flaenorol, ond nid yw'n eu heithrio rhag cael eu hasesu.

Caniateir CDB ac mae hefyd yn sector-benodol.

DRAFFT

# Manylebau Asesu

## Asesiad ar-sgrîn

Gellir gweld manyleb y prawf ar gyfer yr Asesiad Ar-sgrin yn y Pecyn Asesu.

## Prosiect Ymarferol

Cyfeiriwch at yr adran Prosiect Ymarferol yn y Pecyn Asesu.

DRAFFT

# Allwedd cynnwys

Nod yr wybodaeth isod yw ceisio rhoi golwg gyffredinol ar strwythur cynnwys yr uned a sut mae'r meysydd cynnwys yn gysylltiedig â'i gilydd yn ogystal â gwybodaeth am ddarparu ac asesu'r cymhwyster.

## Deilliannau dysgu

Mae deilliannau dysgu yn grwpio rhannau o sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth berthnasol gyda'i gilydd. Maent yn cael eu cyflwyno fel canlyniad y broses ddysgu, hynny yw, beth mae'n rhaid i ddysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud ar ôl yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae'r deilliant dysgu hwn yn ymwneud â dewis adnoddau.

***Deilliant dysgu:***
*1. Deall y broses o ddewis adnoddau*

## Meini Prawf

Mae'r meini prawf asesu yn rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w trafod. Y meini prawf hyn fydd yn cael eu hasesu yng nghyswllt y deilliant dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae maen prawf asesu 1.3 yn ymwneud â beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer dewis adnoddau.

***Meini Prawf***

*1.3 Gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer dewis adnoddau*

## Ystod

Mae'r ystod yn cynnwys gwybodaeth am yr ehangder sy'n ofynnol ar gyfer maen prawf penodol, er enghraifft, gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio ac ati. Nid yw'r ystod yn rhestr gynhwysfawr. Mae'n bosib y bydd enghreifftiau eraill a allai ddod o dan y maes pwnc hwn, ond, mae'r rhai sydd wedi'u rhestru yn yr ystod yn allweddol ar gyfer darparu cynnwys yr uned - **mae'n rhaid cynnwys pob elfen sydd wedi'i rhestru yn yr ystod wrth ddarparu'r uned.**

***Ystod:*** *gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio*

DRAFT

## Dyfnder y cynnwys

Mae dyfnder y cynnwys yn amlinellu pa mor fanwl y mae'n rhaid mynd drwy'r cynnwys. Mae hyn yn golygu bod modd canolbwyntio'r addysgu ar y lefel gywir er mwyn i'r dysgwr fod yn barod i gael ei asesu. Er enghraifft, mae 'bydd dysgwyr yn deall y rhesymau' yn tynnu sylw at y ffaith y bydd yn rhaid i'r dysgwyr ddeall 'sut' neu 'pam' yng nghyswllt yr ystod.

***Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)***

*1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, manylebau, rhestrau a gwybodaeth cynhyrchwyr.*

*Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae codi archebion, archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol, gan gynnwys:*

- *llunio rhestr ddeunyddiau/adnoddau ar gyfer amrywiaeth o dasgau gwaith coed y ffics cyntaf.*
- *llenwi ffurflen archebu.*

**Nodyn:** Os yw'r adran Deilliannau Darparu (dyfnder y cynnwys) yn dweud **Amherthnasol/Amh.** neu os nad yw'n bodoli, mae hyn oherwydd natur hunanesboniadol y meini prawf sgiliau ymarferol cysylltiedig a/neu fod y gofynion darparu yn benodol i leoliadau dysgwyr unigol.



DRAFT

# Cynnwys yr uned

DRAFFT

# Uned 250: Arferion gweithleoedd adeiladu yng Nghymru

| GLH: | 36 |
|---|---|

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Pwrpas yr uned hon yw bod dysgwyr yn archwilio ac yn deall cwmpas eang y sector adeiladu yng Nghymru, y cyrff crefft perthnasol a'u rôl, ystyriaethau amgylcheddol a chynaliadwyedd a'r berthynas waith rhwng crefftau. Bydd yn rhoi golwg gyffredinol ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer gweithio yn y sector adeiladu yng Nghymru.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- gwybod am y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu
- deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd
- deall arferion cysylltiedig yn y diwydiant adeiladu

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pam ddylwn i ymuno ag undeb?
- Beth yw ystyr gwahanol liwiau'r cardiau CSCS?
  Sut mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn berthnasol i adeiladu?

DRAFT

## Deilliant dysgu

### 1. Gwybod am y cyrff a'r sefydliadau masnach o fewn y sector adeiladu

## Meini Prawf

**1.1** Y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

**1.2** Rôl cyrff a sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

**1.3** Y cynlluniau cerdyn cymhwysedd yn y sector adeiladu a'r mathau o gardiau sydd ar gael

**1.4** Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a'i rôl yn y sector adeiladu

### 2. Deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd

## Meini Prawf

**2.1** Cynaliadwyedd a rheoleiddio'r diwydiant

**2.2** Ystyriaethau ac egwyddorion ecolegol

**2.3** Dulliau cynaliadwy

**2.4** Gwaredu gwastraff ym maes adeiladu

### 3. Deall arferion cysylltiedig yn y diwydiant adeiladu

## Meini Prawf

**3.1** Rhyngddibyniaethau rhwng crefftau

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am yr ystod o sefydliadau crefft yn y sector adeiladu, o dan y corff crefft ymbarél, sef Build UK; y ffederasiynau prif ffrwd mwy fel Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr (FMB), a'r Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr (NFB).

Bydd dysgwyr yn gwybod am y sefydliadau crefft sy'n dylanwadu ar arferion adeiladu yng Nghymru: Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEWales), Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yng Nghymru, Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru (RTPI Cymru), Sefydliad Siartredig Adeiladu (CIOB Cymru) a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF Cymru).

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y ffederasiynau crefft penodol sy'n cefnogi eu crefft. Bydd dysgwyr yn gwybod am gofrestru proffesiynol fel gweithiwr adeiladu proffesiynol ar gyfer y maes crefft o'u dewis.

DRAFFT

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall nodweddion allweddol sefydliadau crefft yn y sector adeiladu. Dylai hyn gynnwys rôl cryfhau, uno ac eirioli Build UK; y sicrwydd y mae aelodaeth cwmni o FMB neu'r NFB yn ei gynnig i gwsmeriaid.

Bydd dysgwyr yn deall y gwasanaethau/manteision sy'n deillio o ymuno ag undeb.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y cynlluniau cardiau ar gyfer crefftau adeiladu, gan gynnwys y cerdyn CSCS gorfodol. Cynllun Cymhwysedd Peiriannau Adeiladu (CPCS), Cynllun Ardystio Electrodechnegol (ECS), Cynllun Cofnod Sgaffaldwyr y Diwydiant Adeiladu (CISRS), Prefabricated Access Suppliers a'r Manufacturers Association (PASMA), Cynllun Cofrestru Gweithredwyr Peiriannau Cenedlaethol (NPORS).

**Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl darparwyr cardiau, gofynion cofrestru a'r angen am gymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant.**

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) o ran ei gymorth ar gyfer hyfforddiant a DPP parhaus, safonau a chymhwysedd, yn ogystal â'r talent sydd ar y gweill.

**Deilliant 2**

**2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod am swyddogaethau allweddol Deddf yr Amgylchedd (Cymru), Cyflogaeth Foesegol yn y Cadwyni Cyflenwi, Strategaeth Pren a Deunyddiau Cynaliadwy, Deddf Diogelu'r Amgylchedd, Rheoliadau Gwastraff Peryglus, Deddf Atal a Rheoli Llygredd, Deddf Rheoli Llygredd, Rheoliadau Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE).**

Bydd gan ddysgwyr wybodaeth sylfaenol am sut gall prosiectau adeiladu helpu gydag effeithlonrwydd ynni a'r berthynas sydd gan ôl-osod cyfrifol, cartrefi clyfar a thechnolegau clyfar.

**2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw prif nodweddion ystyriaethau ac egwyddorion ecolegol, sef ardaloedd o orlifdiroedd, gwrthbwyso bioamrywiaeth, cynefinoedd mewn perygl a phrif rywogaethau gwarchodedig (tarfu ar glwydfa ystlumod neu nythfa o fadfallod dŵr), ac yn gallu eu cysylltu â'r amgylchedd adeiledig.** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw prif nodweddion deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a chynefinoedd, yn ogystal â'r cosbau am beidio â chydymffurfio.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r prif ddulliau cynaliadwy (adfer ac awyru gwres, casglu dŵr glaw, paneli solar, pympiau gwresogi ac oeri, adeiladau di-garbon) sy'n berthnasol i adeiladu a'r amgylchedd adeiledig ac yn cydnabod cwmpas eu defnydd i gynnal adeilad iach. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu nodi'r ffyrdd y gall adeiladau wrthbwyso eu hôl troed carbon.

**2.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut y gall defnyddio gwahanol ddeunyddiau leihau effaith amgylcheddol ym maes adeiladu, a 5 egwyddor rheoli gwastraff (sef
**2.5** gwrthod, lleihau, ailddefnyddio, ailbwrpasu ac ailgylchu).
Bydd dysgwyr yn gwybod am bwysigrwydd archebu deunyddiau'n gywir er mwyn lleihau gwastraff safle a lleihau costau ar archebu gormod, didoli gwastraff a gwaredu gwastraff.

Bydd dysgwyr yn deall arferion rheoli gwastraff y diwydiant a'r effaith gadarnhaol a negyddol (bioddiraddadwy/anfioddiraddadwy) y gallant ei chael ar dirlenwi a'r amgylchedd.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut y gall deunyddiau sgrap (fferrus) ddal gwerth, ei fod yn adnodd cyfyngedig ac yn gwybod am y broses o ddefnyddio gwerthwyr metel sgrap cofrestredig yng Nghymru.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae'n rhaid gwaredu gwastraff, y broses o ddefnyddio cludwyr gwastraff trwyddedig (peryglus/nad yw'n beryglus) a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â gofynion statudol.

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn deall y berthynas waith a'r rhyngddibyniaethau rhwng crefftau mewn gwahanol gyd-destunau, yn amrywio o adeiladu o'r newydd i drwsio ac adnewyddu strwythurau traddodiadol.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae crefftau unigol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhyngweithio ar draws gwahanol sefyllfaoedd.

Bydd dysgwyr yn deall y mathau o broblemau sy'n gallu codi o'r rhyngddibyniaethau a'r perthnasoedd gwaith hyn a sut mae eu datrys.

DRAFT

# Uned 251: Cynllunio ac adolygu gwaith yn y sector adeiladu

| | |
|---|---|
| **GLH:** | 23 |

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn rhoi gwybodaeth i'r dysgwr am sut mae cynllunio ac adolygu gwaith. Bydd dysgwyr yn gallu darllen a dehongli'r cynlluniau a'r dogfennau sydd eu hangen i gyflawni amrywiaeth eang o dasgau yn y maes crefft. Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio ar gyfer cwblhau amrywiaeth eang o dasgau yn y maes crefft, gan ddefnyddio'r sgiliau llythrennedd a rhifedd gofynnol a gosod eu meini prawf perfformiad eu hunain ar gyfer tasgau penodol.

Bydd dysgwyr yn adolygu eu perfformiad eu hunain wrth gyflawni amrywiaeth eang o dasgau yn y grefft hon mewn perthynas â'r gofynion gosodedig a'u meini prawf llwyddiant eu hunain.

Bydd dysgwyr yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau'n ymwneud â'r canlynol:

- pennu costau, gofynion o ran adnoddau ac amser
- cynllunio gwaith
- pwysigrwydd adolygu eu gwaith.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng amcangyfrif a dyfynbris?
- Sut mae prisio tasg fach?
- Beth sydd ynghlwm wrth brisio ar gyfer contract mawr?
- Beth yw RAMS?

Bydd y sgiliau yn y deilliant hwn yn bwysig er mwyn galluogi'r dysgwr i gynllunio, perfformio ac adolygu ei waith yn asesiad y Prosiect Ymarferol.

DRAFT

## Deilliant dysgu:

**1. Pennu costau, gofynion o ran adnoddau ac amser**

### Meini Prawf

**1.1** Cyfrifo costau ar gyfer amcangyfrif tasgau/prosiectau ym maes adeiladu

**1.2** Nodi pa adnoddau sydd eu hangen

**1.3** Amcangyfrif o'r gofynion amser

**2. Cynllunio'r gwaith sydd angen ei wneud i gwblhau'r dasg/tasgau**

### Meini Prawf

**2.1** Nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dasg

**2.2** Cynllunio gweithgareddau a threfn/camau'r gwaith er mwyn cyflawni'r dasg

**2.3** Nodi meini prawf llwyddo ar gyfer y dasg

**3. Adolygu'r gwaith sydd wedi'i gwblhau**

### Meini Prawf

**3.1** Adolygu'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddiant

DRAFT

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gallu cyfrifo cost, maint elw a defnyddio dulliau o bennu pris: costau llafur, costau deunyddiau, costau gwastraff.

**1.2** Bydd dysgwyr yn adnabod mathau o adnoddau fel:

- deunyddiau traul (ailgyflenwadwy) – costau lles a deunyddiau
- ailddefnyddiadwy – peiriannau, cyfarpar, asedau parhaol a phobl.

Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer prosiectau adeiladu a pha bryd y mae eu hangen, yn ogystal â sut i osgoi gwastraff.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gallu amcangyfrif y gofynion amser ar gyfer prosiectau adeiladu syml, dylunio, cynllunio, paratoi, gosod, comisiynu a gweinyddu'r prosiectau.

Ystyriaethau - amseroedd arwain, paratoadau wrth gefn ar gyfer y tywydd, rheoli gwastraff, Cymeradwyaeth yr Awdurdod Lleol.

Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o ofynion amser wrth amserlennu prosiectau ar gyfer gwaith adeiladu ac archwiliadau sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys cylch

bywyd llawn y prosiect (dylunio, cynllunio, gosod a chomisiynu), gan ystyried newidynnau: amseroedd arwain, cynlluniau wrth gefn ar gyfer y tywydd, rheoli gwastraff, cyfranogiad Awdurdodau Lleol.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis yr adnoddau mwyaf addas (offer, peiriannau, cyfarpar, cynnyrch, deunyddiau) a defnyddio sgiliau a gweithdrefnau perthnasol i gyflawni tasgau. **Bydd dysgwyr yn defnyddio gwybodaeth i nodi a chasglu'r adnoddau i gwblhau'r dasg.**

**2.2** Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio'r gwaith o gwblhau tasgau sy'n benodol i grefftau, sydd wedi'u diffinio'n dda a mynd i'r afael â phroblemau syml. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gwneud y gwaith cynllunio angenrheidiol er mwyn gallu cwblhau gwaith. Mae hyn yn cynnwys asesiadau risg a datganiadau dull (RAMS), cost a phrisiau (amcangyfrifon, dyfynbrisiau cwsmeriaid), a defnyddio/creu diagramau neu ddarluniau gyda gwybodaeth gywir o ffynonellau gwybodaeth priodol.

Bydd dysgwyr yn gallu nodi a chwblhau dogfennau perthnasol ar gyfer yr offer, y deunyddiau a'r cyfarpar sydd eu hangen i gwblhau tasgau; yn ogystal â chynllunio trefn/camau gwaith (amserlen waith), er mwyn i waith gael ei gwblhau'n ddiogel, yn effeithlon, ac yn effeithiol (creu cynlluniau gyda gweithgareddau, cerrig milltir a dibyniaethau).

**2.3** Bydd dysgwyr yn gallu nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer elfennau allweddol o'r gwaith ac ansawdd y gorffeniad. Bydd dysgwyr yn adnabod meysydd a fydd yn heriol iddynt, gan eu galluogi i fynd i'r afael â'r rhain gymaint â phosibl yng nghamau cynllunio a pharatoi'r gwaith.

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu adolygu eu perfformiad wrth gyflawni'r tasgau, mewn perthynas â'r gofynion a nodwyd a'u meini prawf llwyddo eu hunain.

Ystyriaethau: dewis offer a deunyddiau, diogelwch, gwaredu gwastraff, amseru, effeithlonrwydd, ansawdd y gorffeniad, goddefiant a safonau'r diwydiant.

Bydd dysgwyr yn gallu pwyso a mesur ac adolygu eu perfformiad eu hunain yn erbyn eu cynllun o ran agweddau allweddol fel:

- a yw'r tasgau a gwblhawyd yn bodloni manylebau a therfynau amser
- a yw arferion gweithio yn dilyn RAMS a argymhellir
- a ellid fod wedi defnyddio dull arall
- pa mor effeithiol y bu eu gweithredoedd
- cryfderau/meysydd i'w gwella
- y gwersi a ddysgwyd:

# Uned 252: Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

| **GLH:** | 40 |
|---|---|

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ofynion statudol cyfredol perthnasol a chanllawiau swyddogol i gynnwys cyfrifoldebau, i'r hunan ac i eraill, sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle. Mae hefyd yn ymdrin ag ymddygiad personol a diogelwch yn y gweithle yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- derbyn cyfrifoldeb drostyn nhw eu hunain â phobl eraill, a chydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad er mwyn eu galluogi i gyfrannu at iechyd, diogelwch a lles
- cydymffurfio â holl drefniadau diogelwch a gweithdrefnau cymeradwy'r sefydliad a'u cefnogi.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Am ba reoliadau y mae angen i mi wybod?
- Beth mae datganiad dull yn ei ddweud wrthyf?
- A fydd yn rhaid i mi weithio gyda deunyddiau a sylweddau peryglus?
- Sut mae adnabod asbestos?

DRAFT

## Deilliant dysgu

### 1. Deall iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle

## Meini Prawf

**1.1** Beth a pham mae deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles yn berthnasol i'r maes galwedigaethol

**1.2** Pa hysbysiadau ac arwyddion rhybudd yn ymwneud â deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles sy'n berthnasol i'r maes galwedigaethol a'r cyfarpar cysylltiedig

**1.3** Sut mae cydymffurfio â mesurau rheoli a nodir drwy asesiadau risg a systemau gweithio diogel

**1.4** Pam, pryd a sut dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

### 2. Deall sut mae adnabod peryglon

## Meini Prawf

**2.1** Y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd gwaith

**2.2** Sut mae amgylchiadau sy'n newid yn gallu creu peryglon

**2.3** Y dull o roi gwybod am beryglon yn y gweithle

### 3. Deall polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

## Meini Prawf

**3.1** Beth yw polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer iechyd, diogelwch a lles

**3.2** Sut mae cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles

**3.3** Sut gall gweithredoedd ac ymddygiad unigol effeithio ar eraill

**3.4** Beth yw'r mathau o gyfarpar diffodd tân, a sut a pha bryd mae eu defnyddio

### 4. Deall sut mae rhoi trefniadau diogelwch ar waith

## Meini Prawf

**4.1** Sut mae trefniadau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith yn y gweithle



DRAFT

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gofynion statudol a/neu ganllawiau swyddogol ar gyfer iechyd, diogelwch a lles ar gyfer yr alwedigaeth a'r man gweithio.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol hysbysiadau ac arwyddion rhybuddio sy'n berthnasol i'r maes galwedigaethol: gwahardd, rhybuddio, gorfodol, cyflwr diogel, diogelwch tân a deunyddiau peryglus.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithio'n ddiogel ac yn unol â mesurau rheoli a nodwyd drwy asesiadau risg a datganiadau dull (RAMS).

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch priodol yn ôl yr egwyddorion diogelu ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, gwahanol sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol, gan gynnwys:

- mesurau diogelu cyfunol
- systemau awyru lleol sy'n gwacáu mygdarth
- cyfarpar diogelu personol (PPE)
- cyfarpar diogelu anadlol (RPE).

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod y risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r maes galwedigaethol, gan gynnwys risgiau a pheryglon o ran y canlynol:

- Adnoddau – sylweddau, asbestos, silica, cemegion, llwch, codi a chario, pentyrru a storio, defnyddio deunyddiau.
- y gweithle – mannau cyfyng, gweithio mewn mannau uchel, peiriannau a chyfarpar, rhwystrau, storio, gwasanaethau a gweithgareddau gwaith, llithro, baglu a syrthio.
- yr amgylchedd - amodau'r tywydd, gwres, oerfel, gwynt, glaw, mellt, awyru, tymheredd gweithio, cynnal a chadw.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod y risgiau cyffredin cyfredol o ran diogelwch a'r risgiau cyffredin i iechyd. I gynnwys amodau'r tywydd, newidiadau mewn arferion a gweithdrefnau gwaith, defnyddio deunyddiau a chyfarpar, trin a storio deunyddiau peryglus.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau cofnodi a gofynion statudol y sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am beryglon yn y gweithle. Pwy, pryd a sut i gofnodi digwyddiad adroddadwy.

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithio'n ddiogel yn unol â gofynion y sefydliad, gan gynnwys: derbyn neu ddod o hyd i wybodaeth, cofnodi, rhoi'r gorau i weithio, gwagio, risgiau tân a gweithdrefnau gadael diogel, ymgynghori ac adborth. Nodi pryd mae angen gwybodaeth a sgiliau arbenigol. Sut a phryd mae sesiynau cynefino, sgyrsiau blwch offer, sesiynau briffio tîm ac arwyddion yn cyfrannu at arferion gweithio diogel.

**Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae delio â damweiniau ac argyfyngau sy'n**

**gysylltiedig â'r math o waith sy'n cael ei wneud a'r amgylchedd gwaith, gan gynnwys gweithdrefnau gwagio, cau ardaloedd, delio â gollyngiadau.**

**3.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cymryd cyfrifoldeb dros iechyd, diogelwch a lles, yn unol â'u hyfforddiant a'u sgiliau a therfynau eu hawdurdod eu hunain. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae rhoi gwybod am amgylchiadau a digwyddiadau sydd wedi newid yn y gweithle gan lynu wrth ofynion amgylcheddol y gweithle.

**3.3** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd, diogelwch a lles ac yn gwybod pryd i roi'r gorau i weithio yn wyneb perygl difrifol a pherygl sydd ar fin digwydd. I gynnwys chwarae'n wirion, cynnal a chadw gwael, ymddygiad ymosodol, arferion gweithio anniogel, unigolion dan ddylanwad alcohol/sylweddau anghyfreithlon.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gyfrannu at drafodaethau a rhoi adborth gwerthfawr.

**3.4** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol gyfarpar diffodd tân sydd ar gael a sut i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn gwybod am y dosbarthiadau canlynol ac yn deall y triongl tân (tanwydd, ocsigen a ffynonellau tanio):

- dŵr – coch/Dosbarth A, deunyddiau carbonaidd
- $CO_2$ – du/Dosbarth B ac E, trydanol a hylifau fflamadwy
- ewyn – hufen/dosbarth A a B, deunyddiau carbonaidd a hylifau fflamadwy
- powdr – glas, pob dosbarth o dân
- cemegyn gwlyb - melyn/Dosbarth F, olew a brasterau.

**Deilliant 4**

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau'r sefydliad sy'n ymwneud â diogelwch y gweithle, y cyhoedd, staff y safle ac adnoddau, a sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu'r cyhoedd rhag gweithgareddau gwaith drwy ddefnyddio byrddau cadarn, ffensys rhwyllog agored, teledu cylch cyfyng ac arwyddion.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd rhwystrau diogelwch, llwybrau cerdded dynodedig, gweithdrefnau mewngofnodi/allgofnodi a chyfleusterau storio diogel.

Bydd dysgwyr yn gwybod am yr amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir ar y safle i atal mynediad heb awdurdod, difrod i eiddo a dwyn nwyddau.

## Deilliant dysgu

### 5. Cydymffurfio â holl ofynion deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle bob amser

## Meini Prawf

**5.1** Osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

- cynefino
- sesiynau briffio

- defnyddio hyfforddiant blaenorol (defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel)

**5.2** Glynu wrth ofynion statudol a/neu hysbysiadau diogelwch ac arwyddion rhybudd sy'n cael eu harddangos yn y gweithle neu ar gyfarpar

**5.3** Adnabod peryglon (sy'n cael eu creu gan amgylchiadau sy'n newid), sy'n gysylltiedig â'r gweithle, nad ydynt wedi cael eu rheoli o'r blaen, a rhoi gwybod amdanynt yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad

## 6. Derbyn cyfrifoldeb dros bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad a chydymffurfio â hwy er mwyn cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles

### Meini Prawf

**6.1** Arddangos ymddygiad personol sy'n dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

**6.2** Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad sy'n ymwneud â'r canlynol;

- ystyried pobl eraill
- dehongli cyfarwyddiadau a roddwyd er mwyn cynnal systemau gweithio diogel
- cyfrannu at drafodaethau (cynnig a rhoi adborth)
- cynnal arferion gweithio o safon
- cyfrannu at gynnal cyfleusterau lles yn y gweithle
- storio a defnyddio cyfarpar a ddarperir i gadw pobl yn ddiogel
- cael gwared ar wastraff a/neu eitemau traul

## 7. Cydymffurfio â holl drefniadau diogelwch a gweithdrefnau cymeradwy'r sefydliad a'u cefnogi

### Meini Prawf

**7.1** Cydymffurfio â gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer cynnal diogelwch y gweithle:

- yn ystod y diwrnod gwaith
- ar ôl cwblhau gwaith y diwrnod
- rhag staff heb awdurdod (gweithwyr eraill a/neu'r cyhoedd)
- rhag lladrad.

# Uned 253: Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol

| **GLH:** | 15 |
|---|---|

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae’r uned hon yn ymwneud â chyfathrebu cynhyrchiol â rheolwyr llinell, cydweithwyr a chwsmeriaid yn ogystal â dehongli gwybodaeth, cynllunio a chynnal arferion gwaith cynhyrchiol a gweithio gydag eraill neu fel unigolyn, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a’ch amgylchedd gwaith.

Ar ôl cwblhau’r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- cyfathrebu ag eraill
- dilyn gweithdrefnau'r sefydliad i gynllunio trefn y gwaith er mwyn cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol a chadw cofnodion
- cynnal perthynas waith dda.

Gellir cyflwyno dysgwyr i’r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pa waith papur fydd yn rhaid i mi weithio ag ef ar y safle?
- Beth yw ystyr cydraddoldeb ac amrywiaeth (E&D)?
- A fydd yn rhaid i mi fynychu cyfarfodydd a sesiynau briffio ar ôl fy sesiwn cynefino?
- Beth yw gweithdrefnau’r sefydliad?

DRAFT

## Deilliant dysgu

### 1. Deall sut i gyfathrebu ag eraill

## Meini Prawf

**1.1** Sut mae defnyddio dulliau cyfathrebu gyda staff eraill yn y gweithle a gyda chwsmeriaid

**1.2** Sut mae cyfathrebu i sicrhau bod y gwaith yn gynhyrchiol

### 2. Deall sut mae dilyn gweithdrefnau

## Meini Prawf

**2.1** Sut mae gweithdrefnau'r sefydliad yn cael eu defnyddio i gynllunio a chyflawni gwaith cynhyrchiol

**2.2** Sut mae cadw dogfennau yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad

### 3. Deall sut mae cynnal perthynas waith dda

## Meini Prawf

**3.1** Sut mae cynnal perthynas waith dda

**3.2** Sut mae cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn deall sut mae defnyddio gwahanol ffyrdd o gyfathrebu, gan gynnwys gwrando, yn ysgrifenedig, ar lafar, yn weledol ac yn ddigidol a'r ystyriaethau allweddol ar gyfer defnyddio:

- Gwrando - gweithredol, empathetig, beirniadol, myfyriol
- Ysgrifenedig - terminoleg dechnegol, strwythuredig, gwrthrychol, disgrifiadol, naratif
- Ar lafar - defnyddio geirfa, terminoleg dechnegol, rhugldər, gramadeg llafar, wyneb yn wyneb, ffôn symudol, cyfarfod ar-lein/o bell
- Gweledol - lluniadau/cynlluniau, arwyddion, hysbysiadau, iaith y corff, iaith arwyddion a signalau llaw (sef arolygwr)
- Digidol - e-bost, negeseuon testun, apiau cyfathrebu (apiau gwaith cyffredinol ac arbenigol).

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio gwahanol fathau o gyfathrebu yn y gweithle i sicrhau bod gwybodaeth yn glir a bod y gwaith yn gynhyrchiol: sesiynau briffio tîm, sgyrsiau blwch offer, siartiau Gantt, datganiadau dull, cardiau gwaith, lluniadau gwaith, manylebau ac amserlenni ysgrifenedig, llenyddiaeth gwneuthurwyr.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall sut mae gwaith yn cael ei ddyrannu i weithwyr a threfn rhaglenni gwaith dilyniannu. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio adnoddau'n briodol ar gyfer eu gofynion gwaith eu hunain a gofynion gwaith pobl eraill.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal dogfennau, gan gynnwys: cardiau tasgau, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thaflenni amser.

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae meithrin a chynnal perthynas waith dda gydag eraill, gan gynnwys; unigolion, grwpiau yn y gweithle (y cwsmer a'r gweithiwr, y gweithiwr a rheolwyr llinell, ei alwedigaeth ei hun a galwedigaethau cysylltiedig).

- bod yn gwrtais ac yn barchus
- defnyddio cyfathrebu clir ac amserol
- bod yn glir ynghylch gofynion gwaith, terfynau amser prosiectau
- cwblhau'r tasgau a neilltuwyd ar amser
- cymryd cyfrifoldeb dros eich gwaith eich hun
- bod yn ymwybodol o derfynau amser y tîm/pobl eraill
- gweithio tuag at nod cyffredin
- parodrwydd i addasu i newid.

**3.2** Bydd dysgwyr yn deall sut i ystyried anghenion unigolion drwy ddefnyddio egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys cydnabod nodweddion gwarchodedig, gwerthfawrogi cefndiroedd gwahanol, ac egwyddorion FREDA (sef *Fairness, Respect, Equality, Dignity, Autonomy*):

- Tegwch
- Parch
- Cydraddoldeb
- Urddas
- Ymreolaeth

## Deilliant dysgu

### 4. Cyfathrebu gydag eraill

## Meini Prawf

**4.1** Cyfathrebu â rheolwyr llinell, cydweithwyr neu gwsmeriaid i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd gynhyrchiol

**4.2** Parchu anghenion pobl eraill wrth gyfathrebu

## 5. Dilyn gweithdrefnau'r sefydliad i gynllunio trefn y gwaith i gydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol a chadw cofnodion

### Meini Prawf

**5.1** Dehongli gweithdrefnau a defnyddio adnoddau i gynllunio trefn y gwaith, er mwyn iddo gael ei gwblhau mewn ffordd gynhyrchiol

**5.2** Cwblhau dogfennau fel sy'n ofynnol gan y sefydliad

## 6. Cynnal perthynas waith dda

### Meini Prawf

**6.1** Gweithio'n gynhyrchiol gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr, cwsmeriaid neu bobl eraill

**6.2** Cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth

DRAFT

# Uned 254: Symud, trin neu storio adnoddau

| GLH: | 10 |
|---|---|

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth a mabwysiadu arferion gweithio diogel ac iach, gan gynnwys dewis cymhorthion neu gyfarpar i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol. Mae hefyd yn cynnwys symud, trin a storio adnoddau galwedigaethol i gynnal cyflwr defnyddiol, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- deall sut mae dehongli gwybodaeth
- deall sut mae dewis adnoddau
- cydymffurfio â gwybodaeth am adnoddau galwedigaethol a chynnal arferion gwaith diogel.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pa mor drwm fydd gwrthrych y bydd disgwyl i mi ei gario?
- Fydda i'n dysgu sut mae defnyddio'r technegau codi cywir?
- Beth yw ystyr FIFO?

DRAFT

## Deilliant dysgu

### 1. Deall sut mae dehongli gwybodaeth

## Meini Prawf

**1.1** Sut mae cael gwybodaeth i ddefnyddio a storio cymhorthion a chyfarpar codi

**1.2** Lefel y ddealltwriaeth y mae angen i weithredwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau swyddogol perthnasol cyfredol a sut mae eu defnyddio

### 2. Deall y broses o ddewis adnoddau

## Meini Prawf

**2.1** Sut mae defnyddio'r adnoddau a sut mae rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen i osod, defnyddio a storio cymhorthion a chyfarpar codi yn ddiogel, gan gynnwys berfâu, berfâu sachau, trolïau bwrdd, tryciau paledi, olwynion craen, codwyr bwrdd, padiau sugno, offer gafael mewn brics, pwlïau, gan gynnwys gwybodaeth cynhyrchwyr, dogfennau iechyd a diogelwch.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau ynglŷn â damweiniau posibl a pheryglon i iechyd wrth symud, trin a storio deunyddiau adeiladu.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio rheoliadau statudol (COSHH, Gweithrediadau Codi a Chario, Rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAHR), Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (LOLER), canllawiau swyddogol (HSE), RAMS, a thaflenni data diogelwch ynglŷn â'r canlynol:

- deunyddiau a sylweddau - storio, trin, deunydd dalennog, deunydd rhydd, deunydd mewn bagiau neu wedi'i lapio, deunydd bregus, offer a chyfarpar, cydrannau, hylifau, deunydd peryglus, deunydd fflamadwy, deunydd o werth uchel.
- codi a chario - technegau codi cinetig diogel ac uchafswm llwythi a argymhellir y gall unigolion eu codi a'u cario o wahanol uchder.
- codi mecanyddol - dewis a defnyddio amrywiaeth o gymhorthion codi mecanyddol, gan gynnwys berfâu, berfâu sachau, trolïau bwrdd, tryciau paledi, olwynion craen, codwyr bwrdd, padiau sugno, offer gafael mewn brics, pwlïau.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis adnoddau ar gyfer symud, trin a storio deunyddiau a chyfarpar ar gyfer gwahanol dasgau, gan gynnwys:

- cymhorthion codi a thrin - berfa, tryc paledi, fforch godi, troli cario sachau
- storio – compownd diogel, man dynodedig, cynhwysydd y gellir ei gloi, cynhwysydd deunydd fflamadwy, gorchuddion dros dro

- systemau gosod, dal a sicrhau – rhaffau a rhwymynnau, craffrwymau, strapiau cliciedu
- cylchdroi stoc darfodus, FIFO (cyntaf i mewn cyntaf allan).

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw terfynau eu hawdurdod eu hunain i ddatrys problemau gyda chymhorthion a chyfarpar codi (gan gynnwys namau a diffygion posibl) a'r gweithdrefnau adrodd, gan gynnwys y person cywir i roi gwybod a defnyddio'r dull cywir (ffurfiol, anffurfiol).

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir, deddfwriaeth berthnasol a chanllawiau swyddogol i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol a chynnal arferion gweithio diogel

## Meini Prawf

**3.1** Dehongli gwybodaeth a roddir er mwyn symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol, a defnyddio a storio cymhorthion a chyfarpar codi

**3.2** Osgoi risg drwy gydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am o leiaf **ddau** o'r canlynol:
- dulliau gweithio
- defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch yn ddiogel
- defnyddio cymhorthion codi'n ddiogel
- diogelu'r amgylchedd

**3.3** Dewis faint o adnoddau sydd eu hangen ac ansawdd gofynnol yr adnoddau hynny ar gyfer y dull o symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol:
- cymhorthion codi a thrin
- cynhwysydd/cynwysyddion
- gosod, dal a diogelu systemau

### 4. Atal difrod i'r adnoddau galwedigaethol a'r amgylchedd o'u cwmpas

## Meini Prawf

**4.1** Diogelu'r adnoddau galwedigaethol a'r ardal gyfagos rhag difrod

**4.2** Cael gwared â gwastraff a deunydd pecynnu yn unol â deddfwriaeth

**4.3** Cynnal lle gweithio glân

DRAFT

5. **Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddir am adnoddau galwedigaethol er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon yn unol â'r canllawiau gofynnol ac o fewn yr amser a neilltuwyd yn unol â'r rhaglen waith**

## Meini Prawf

**5.1** Dangos sgiliau gwaith i symud, lleoli, storio, sicrhau a/neu ddefnyddio cymhorthion codi a thechnegau codi cinetig

**5.2** Symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol i fodloni gofynion sefydliadol a gwybodaeth am gynnyrch sy'n berthnasol i o leiaf **dri** o'r canlynol:

- deunyddiau dalen
- deunyddiau rhydd
- deunydd wedi'i lapio neu mewn bagiau
- deunydd bregus
- offer a chyfarpar
- chydrannau
- hylifau

**5.3** Cwblhau'r gwaith o fewn yr amser amcangyfrifedig a neilltuwyd i fodloni anghenion galwedigaethau eraill a/neu'r cwsmer

DRAFT

# Uned 259: Gwybodaeth graidd am Waith Coed ar y Safle

| **GLH:** | 55 |
| --- | --- |

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer gwaith coed ar y safle.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol):

- 260 Gosod cydrannau'r ffics cyntaf
- 261 Gosod cydrannau'r ail ffics
- 262 Codi cydrannau fframwaith strwythurol

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pam mae sesiynau cynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn tasg a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw, a beth maen nhw'n ei wneud?

DRAFT

## Deilliant dysgu

### 1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

#### Meini Prawf

**1.1** Y gweithdrefnau sefydliadol a ddatblygwyd ar gyfer rhoi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith

**1.2** Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli

**1.3** Gweithdrefnau sefydliadol o ran datrys problemau â gwybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn

**1.4** Pwysigrwydd cynnal dogfennau

### 2. Deall arferion gweithio diogel

#### Meini Prawf

**2.1** Lefel y ddealltwriaeth y mae angen i weithredwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau swyddogol perthnasol cyfredol a sut mae eu defnyddio

**2.2** Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb

**2.3** Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol

**2.4** Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad

**2.5** Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

**2.6** Sut mae cydymffurfio ag arferion gweithio sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol cyfredol

### 3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

#### Meini Prawf

**3.1** Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu

**3.2** Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut mae gwneud hynny

DRAFT

## 4. Deall gweithio yn ôl terfynau amser

### Meini Prawf

**4.1** Sut mae gwaith yn cael ei wneud er mwyn cyflawni'r rhaglen o fewn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau sefydliadol sydd ar waith i roi gwybod am broblemau gyda gwybodaeth anghywir neu anghyflawn ac adnoddau anaddas a'u datrys. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu nodweddion a'u defnyddiau, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgyrsiau blwch offer, sesiynau briffio tîm, a sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwrpas, nodweddion a ffyrdd o ddefnyddio lluniadau a chynlluniau (cynllun o'r to, cynllun o'r distiau, cynllun o'r llawr, lluniadau ystod, ystod cydrannau a drychiad), manylebau, amserlenni, datganiadau dull, asesiadau risg, hysbysiadau safle ac arwyddion diogelwch, gwybodaeth cynhyrchwyr, data cynnyrch technegol, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau rhanbarthol, yn ogystal â'r rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu defnyddio a'u rhoi ar waith.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o wybodaeth sydd ar gael a sut mae modd eu canfod, eu cyflwyno a'u dehongli. I gynnwys:

- technegol - taflenni data diogelwch, lluniadau a chynlluniau, manylebau, rhestrau
- cynnyrch - llenyddiaeth, manylebau'r cynhyrchwyr
- rheoleiddio - Asesiad Risg a Datganiad Dull (RAMS), Rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAHR)
- dogfennau ysgrifenedig – nodiadau danfon, ffurflenni archebu
- dulliau cyflwyno – llafar (cyfarwyddiadau llafar), ysgrifenedig (manyleb, taflen waith), cyflwyniad graffigol (rhaglen waith).

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, gwybodaeth anghywir yn cael ei rhoi. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau a'r peryglon posibl sy'n deillio o adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas, cydrannau sydd wedi'u difrodi neu wedi torri, tywydd garw ac amgylchiadau sy'n newid. Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw dilyn gweithdrefnau sefydliadol yn gywir, a chanlyniadau posibl peidio â chyfleu problemau a nodwyd.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod pa mor bwysig yw cadw dogfennau, gan gynnwys: cardiau tasg, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau, archebion, logiau cynnal a chadw a thaflenni amser.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth, diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio: Rheoliadau Adeiladu (Dogfen Gymeradwy A: Strwythur, Dogfen Gymeradwy K: Amddiffyn rhag cwympo, gwrthdrawiad ac effaith, Dogfen Gymeradwy M:

Mynediad i adeiladau a'r defnydd ohonynt a Dogfen Gymeradwy (Rheoliad) 7: Deunyddiau a chrefftwaith); Rheoliadau Gweithio mewn Llefydd Uchel(WAH), Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HASAWA), Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER), Codau Ymarfer Cymeradwy (ACOPs), Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR), Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) (CDM), Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), Rheoliadau Cyfarpar Diogelu Personol yn y Gwaith (PPE), Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (LOLER), Rheoliadau Codi a Chario, Rheoliadau Sŵn yn y Gwaith, Rheoliadau Rheoli Dirgrynu yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y cyfarpar diogelu personol cywir a phwysigrwydd sesiynau cynefino a hyfforddiant. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio adroddiadau RAMS, COSHH a thaflenni data diogelwch ynglŷn â rhoi gwybod am beryglon newydd/damweiniau fu bron â digwydd a sut mae defnyddio technegau priodol (yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol):

- yn y gweithle - mynedfeydd, allanfeydd a llwybrau cerdded diogel, symud peiriannau, cloddiadau, gweithio ar eich pen eich hun
- mewn mannau cyfyng – cynlluniau argyfwng, cyfarpar amddiffynnol anadlol (RPE), awyru lleol sy'n gwacau mygdarth (LEV)
- o dan lefel y ddaear - allanfeydd diogel, gwasanaethau, llifogydd/dŵr daear
- ar uchder - diogelu rhag cwympo, harneisiau diogelwch, cyfarpar mynediad cywir.
- offer a chyfarpar - defnydd diogel, cyfyngiadau, gofynion cyfarpar diogelu personol, cymhorthion diogelwch, systemau echdynnu (LEV).

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw cyfrifoldebau gweithwyr a'r gweithdrefnau yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a hyfforddiant perthnasol o ran y canlynol:

- tanau – atal, defnyddio diffoddyddion tân ar gyfer gwahanol fathau o dân, gweithdrefnau gwagio a mannau ymgynnull
- gollyngiadau – atal, pecynnau gollyngiadau, arwyddion, cau'r ardal, adrodd.
- anafiadau – swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf, cofnodi ac adrodd ar ddamweiniau
- argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol – atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, adrodd.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau gwaith coed cyffredin ar y safle (acíwt a chronig: toriadau, crafiadau, sblintiau, effaith offer/cyfarpar, cael eich gwasgu, straen ailadroddus, anafiadau cyhyrysgerbydol) a chyfrifoldebau unigolion a swyddogion cymorth cyntaf.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd:

- safle – ffensys/parwydydd dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth (teledu cylch cyfyng)
- y gweithle – agor a chloi
- y cwmni – mewngofnodi, gweithdrefnau awdurdodi ID
- gweithredwyr – diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol.

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd ddomestig o'u cymharu ag ar safle.

**2.4** Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu nodi swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn annedd ddomestig, gan gynnwys sut mae cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a RIDDOR ar gyfer digwyddiadau adroddiadwy. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr damweiniau i gofnodi damweiniau ac anafiadau, a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu, ail-werthuso a diweddaru gweithdrefnau gweithio diogel.

**2.5** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol, RPE, LEV yn gywir, gan gynnwys gwybodaeth am sbectolau effaith uchel, gogls, het galed, Hi-Viz, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys profion ffitio'r wyneb), harneisiau diogelwch, menig priodol, sachau atal cwympo, matiau cwympo, system decin diogelwch, rheiliau a rhwydi diogelu sgaffaldiau, lloriau ffug, gwn hoelion balistig, hyfforddiant gwn hoelion y ffics cyntaf; hyfforddiant gwn hoelion yr ail ffics.

**2.6** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan gynnwys: cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP); ailgylchu; ailddefnyddio; gwastraff wedi'i ddidoli; Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE).

**Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod, gweithgareddau gwaith cyffredinol, galwedigaethau eraill, amodau'r tywydd (domestig yn ogystal ag ar safle), gorchudd dros dro, newid trefn y gwaith er mwyn diogelu'r gwaith yn well, gofalu a rhoi sylw i fanylion yn ystod y gwaith gosod, taflenni llwch a diogelwyr deunyddiau.

**Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.**

**3.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gwaredu gwastraff (yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol).

**Deilliant 4**

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen sy'n ofynnol o fewn y rhaglen, a pham mae angen cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith gan gynnwys y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effaith ddilynol trin a storio gwael yn achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, rhaglen waith (ffurfiol ac anffurfiol) a'r goblygiadau ar enw da'r sefydliad ac ar grefftau eraill.

# Uned 260: Gosod cydrannau'r ffics cyntaf

| GLH: | 80 |
|---|---|

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae'n ymwneud â gosod a ffitio cydrannau gwaith coed y ffics cyntaf ar y safle, gan gynnwys parwydydd, gorchuddion llawr, fframiau drysau a leininau.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw'r ffics cyntaf?
- Pa dasgau fydda i'n eu gwneud fel rhan o waith coed y ffics cyntaf?
- Sut ydw i'n cynllunio ac yn ffitio set o risiau?
- Pam fyddwn i'n defnyddio pren neu fetel i adeiladu pared?
- Sut ydw i'n gosod allan ac yn ffitio gorchuddion llawr?

## Deilliant dysgu

**1. Deall y broses o ddewis adnoddau**

### Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
Ystod: nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
Ystod: defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer dewis adnoddau
Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
Ystod: peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

**2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract**

### Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
Ystod: cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

DRAFT

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn deall nodweddion, ansawdd, addasrwydd a maint deunyddiau sydd ar gael yn fasnachol wrth ddewis adnoddau ar gyfer gosod cydrannau'r ffics cyntaf. Bydd dysgwyr yn gwybod y rhesymau dros ddewis deunyddiau ar gyfer cydrannau'r ffics cyntaf, gan gynnwys:

- Fframiau a leininau (drysau a ffenestri)
- Byrddau/siliau ffenestr mewnol
- Gorchuddion llawr a decin to fflat (cynnes ac oer)
- Paradwydd
- Grisiau
- Gorffeniadau ymylon toeau a bondoeau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ddeunyddiau a ddefnyddir:

- Pren meddal - pren gwyn (pyrwydden), pren coch Ewropeaidd, ffynidwydden Douglas
- Coed caled - derw, onnen a mahogani

- Byrddau pren wedi'u gweithgynhyrchu - Bwrdd ffibr dwysedd canolig (MDF), Bwrdd Fflawiau Cyfeiriedig (OSB), pren haenog
- Plastrfyrddau - gwrthsefyll lleithder, acwstig, tân, effaith uchel, thermol
- Cyfansoddion a phlastigion, Polyfinyl Clorid heb ei Blastigeiddio (uPVC)
- Inswleiddio - pared a tho.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod diffygion (crymeddau, bwâu, troadau) sy'n gallu effeithio ar gyfanrwydd y strwythur (clymau, rhaniadau, ysgytiadau, cyfeiriad y gronynnau) a'r rheini sy'n effeithio ar yr estheteg yn unig (clymau bach ar yr wyneb, staen glas). Sut mae cywiro a gweithio gyda diffygion a nodwyd (lleoliad toriadau, defnyddio'r wyneb gorau, cambrau'n wynebu'r un ffordd).

Bydd dysgwyr yn deall defnydd a chyfyngiadau adnoddau (pren safon Lumber Canada (CLS) wedi'i raddio dan straen a'i safoni) a dewisiadau amgen cynaliadwy (gwaith stydiau metel ar gyfer parwydydd a deunyddiau cladin cyfansawdd/plastig).

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddeunyddiau a ffitiadau i'w defnyddio mewn lleoliadau penodol, a pha mor addas ydynt i ffitio, uno a diogelu:

- Fframiau a leininau (drysau a ffenestri) ar stydiau gwaith maen, metel a phren
- Byrddau/siliau ffenestr mewnol
- Gorchuddion llawr a decin toeau
- fflat - sy'n rhydd ac yn syth i'r distiau
- Parwydydd - metel (stydiau sianel C, stydiau sianel I, trac U) a phren (pen, gwadn haearn, stydiau, nogins, ysbwrlath)
- Colofn/amgaead gwasanaeth
- Grisiau - i waliau a lloriau (nid yw'r penderfyniad gan CITB a grwpiau cyflogwyr ynghylch 'grisiau sy'n syth a chyda troadau' wedi'i wneud eto)
- Ymyl to a bondoeau a soffitiau - agored, caeedig, gwastad, danheddog.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau penodol, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a ganfuwyd yn y man darparu ac yn ystod y broses adeiladu. Y rheini sy'n deillio o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio, ei awdurdod ei hun i gywiro a gweithdrefnau adrodd y sefydliad.

Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o uniadau i'w defnyddio i osod cydrannau ffics cyntaf, gan gynnwys bôn, rhigol, mortais a thyno, tafod a rhych.

Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o osodiadau ar gyfer cydrannau'r ffics cyntaf, gan gynnwys hoelion (hoelion main hirgrwn (rhydd/wedi'u coladu), pengoll, weiren, clowt, pinnau panel, gwaith maen, hoelion llorio, styffylau, polytop, troi, hoelion garan cylch), sgriwiau (pen waffer, wal sych, edau sengl, edau ddwbl, hunandapio, pren, peiriant, hunan-ddrilio), mathau o yriant pen sgriw (wedi'i stlotio, Pozidriv, Phillips, torx, hex/Allen), mathau o siâp pen sgriws (gwrthdro, plwg crwn, crwn, biwgl, wedi'i godi), wal geudod/wag (sgriwiau bwrdd plastr, plygiau, toglau, angorau) a wal solet (plwg a sgriw, sgriwiau concrit, bolltau sy'n ehangu, cemegol/resin), adlynion D4 (Polywrethan (PU), Asetad polyfeinyl (PVA), llenwad selio/ewyn sy'n ehangu).

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, manylebau, rhestrau a gwybodaeth gwneuthurwyr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae codi archebion, archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol, gan gynnwys:

- llunio rhestr ddeunyddiau/adnoddau ar gyfer amrywiaeth o dasgau gwaith coed y ffics cyntaf
- llenwi ffurflen archebu

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod cydrannau'r ffics cyntaf. Peryglon a risgiau gan gynnwys anafiadau cyhyrysgerbydol o ganlyniad i godi, cario ac osgo gweithio gwael, effaith offer a mynd yn sownd, straen ailadroddus, toriadau, cleisiau, rhwygiadau, Syndrom dirgrynu llaw a braich (HAVs) o ganlyniad i ddefnyddio peiriannau llaw sy'n dirgrynu (cyflwr bysedd gwyn (VWF), Syndrom Raynaud, Syndrom Twnnel y carpws), sylweddau sy'n effeithio ar y llygaid, y trwyn, y gwddf a'r croen, sylweddau carsinogenaidd, nam ar y clyw o ganlyniad i sŵn peiriannau.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall y dulliau a ddefnyddir ar gyfer gosod cydrannau gwaith coed y ffics cyntaf a'r weithdrefn i'w dilyn i roi gwybod am broblem a ganfuwyd, gan sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn cael gwybod.

Y gydran ffics cyntaf fel y'i rhestrir yn 1.1:

- Fframiau a leininau (drysau a ffenestri)
- Byrddau/siliau ffenestr mewnol
- Gorchuddion llawr a decin toeau fflat
- Paradwydd
- Grisiau
- Gorffeniadau ymylon toeau a bondoeau.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut dewis, defnyddio, miniogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel a gwirio, storio a chynnal a chadw cyfarpar sydd ei angen i osod cydrannau gwaith coed y ffics cyntaf a sut i gofnodi unrhyw ddiffygion.

Offer a chyfarpar:

- Offer a chyfarpar llaw - llifiau (llaw, trawstoriad, panel, hac, wal sych, pad), snipwyr tun, crimpiwr, swrfform (naddwr bwrdd), cyfarpar mesur (tapiau a phrennau mesur), sgwariau (cyfuniad, sgwaryn profi, dur, fframio), befel llithro, sgriwdreifars (gyriant wedi'i stlotio, Pozidriv, Phillips, torx, hex/Allen), morthwylion (hollt, lwmp, hoeliwr cudd), clampiau llawr, cynion befel, cŷn hogi, lefelau (saer, cwch/torpido, laser),llinell llinyn, llinell sialc, cyllell docio y gellir ei thynu'n ôl, bitiau dril, (TCT, bit dril "jobber"/tro HSS, taradr, rhaw, gwrthdyllu, gwrthsoddydd), codwyr bwrdd (â llaw, mecanyddol), dyfais "deadman"
- Offer a chyfarpar pŵer - llifiau (torri, bwrdd, cylch/trac, jig), aml-dorrwr, hoeliwr ffics cyntaf/fframio, dril/gyrrwr, gwn sgriwio wedi'i goladu, llwybryddion, torrwyr a jigiau, plaeniwr
- Cyfarpar mynediad - hop-yps, sgaffald tŵr symudol/sefydlog, ysgolion, ysgolion bach, stolion llif.

## Deilliant dysgu

3. **Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol**

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio, torri, ffitio, gorffen, lleoli a sicrhau deunyddiau

**3.2** Dewis, defnyddio a chynnal offer llaw ac offer pŵer i osod o leiaf **dri** o'r canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddwyd:

- fframiau drysau
- fframiau ffenestri (gan gynnwys byrddau ffenestri/siliau)
- leininau (drysau neu hatshis)
- gorchuddion llawr neu ddecin toeau fflat
- parwydydd
- grisiau
- gorffeniadau ymylon toeau a bondoeau.

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1a 3.2**
**Bydd dysgwyr yn gallu dehongli gwybodaeth a roddir er mwyn:**

- gosod fframiau drysau neu ffenestri gan gynnwys byrddau/siliau ffenestri
- saernïo a gosod leininau drysau neu hatshsis
- torri a ffitio gorchuddion distiau llawr
- gosod allan, saernïo a gosod parwydydd gyda gorchuddion
- ffitio a gosod amgaeadau gwasanaeth gyda gorchuddion
- ffitio a gosod grisiau
- torri a ffitio gorffeniadau bondoeau ac ymylon.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn deddfwriaeth a chanllawiau, diogelu'r ardal waith a dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod yn ddiogel, defnyddio a chynnal a chadw gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trafod yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith glir a thaclus, gwaredu gwastraff a chwblhau gwaith yn unol â'r rhaglen waith.

# Uned 261: Gosod cydrannau'r ail ffics

| | |
|---|---|
| **GLH:** | 80 |

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae'n ymwneud â gosod a ffitio cydrannau gwaith coed ail ffics ar safle gan gynnwys gosod drysau, unedau gosod, amgaeadau gwasanaeth.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw'r ail ffics?
- Pa dasgau fydda i'n eu gwneud fel rhan o waith coed yr ail ffics?
- Sut byddaf i'n gwybod pa nwyddau haearn i'w ddefnyddio wrth osod drws allanol?
- Sut ydw i'n mesur ar gyfer mowldinau addurniadol?
- Pa reoliadau adeiladu sy'n berthnasol i risiau?
- Sut ydw i'n gosod ac yn ffitio ceginau?

DRAFT

## Deilliant dysgu

**1. Deall y broses o ddewis adnoddau**

### Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
Ystod: nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
Ystod: defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer dewis adnoddau
Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
Ystod: peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

**2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract**

### Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
Ystod: cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

DRAFT

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn deall nodweddion, ansawdd, addasrwydd a maint deunyddiau a chydrannau sydd ar gael yn fasnachol wrth ddewis adnoddau ar gyfer gosod cydrannau'r ffics cyntaf.

Cydrannau a deunyddiau i gynnwys:

- Drysau (mewnol, allanol, sy'n gwrthsefyll tân a heb fod yn gwrthsefyll tân) - gwastad, wedi'u panelu, wedi'i fframio, yn ysgafellog ac yn gleddyfog (FLB), ysgafellog a chleddyfog (LB) (cyfeiriad y cleddau), hanner gwydr neu wedi'u gwydro'n llawn, dwbl, rabed, Polyfinyl Clorid heb ei blastigeiddio (uPVC), cyfansawdd
- mowldinau addurniadol - architraf, sgyrtin, rheilen dado, rheilen ffris, rheilen luniau, blociau cornel ("rosette" a corbel) blociau plinth; meintiau a phroffiliau, pren meddal, pren caled, Bwrdd ffibr dwysedd canolig (MDF), uPVC
- nwyddau haearn - meintiau a mathau o golfachau (gradd tân, bôn, bôn codi, bôn disgyn, parliament, datodadwy, cudd, cegin, baner, gwastad, ffrithiant, T, strap,

helical (sengl/dwbl)), cloeon (sash, ymyl, silindr nos, ewro, mortais, marw, amlbwynt/espagnolette, bysellbad digidol/cyfuniad, clo hasp a stapwl), cliciedau (mortais, bawd), bolltau (drws mortais, colfach diogelwch, tŵr, cudd, camdro, gwastad), dolenni (lifer, nobyn a D) plât/bar gwthio/cicio, gwylwyr diogelwch, caewyr drysau (cudd, ar yr wyneb)

- amgaeadau gwasanaeth - ffrâm ysgerbydol draddodiadol, stydiau metel, adeiladu slabiau, uPVC parod, cyfansawdd, plastrfwrdd a gorchuddion deunyddiau dalen pren
- unedau a ffitiadau parod - arwynebau gwaith; pren soled, wedi'i lamineiddio, ôl-ffurfio ac ymyl sgwâr, naturiol, a chyfansawdd, dulliau uniadu
- cladin neu baneli - cedrwydd, llarwydden, byrddau cyfansawdd, uPVC, deunyddiau dalen pren, derw, metel, gwydrog
- cydrannau grisiau - canllawiau, echelau, gwydrog, pyst grisiau (llawn, hanner, crog, canolradd), capiau pyst grisiau, capiau/rheiliau sylfaen llinynnau, leinin ffedog, mowldinau, bylchwyr, bolltau a bracedi canllaw grisiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod diffygion sy'n gallu effeithio ar gyfanrwydd y strwythur (clymau, rhaniadau, ysgytiadau, cyfeiriad y gronynnau a'r rheini sy'n effeithio ar yr estheteg yn unig (staen glas). Sut mae cywiro a gweithio gyda diffygion a nodwyd (lleoliad toriadau, defnyddio'r wyneb gorau, cambrau'n wynebu'r un ffordd).

Bydd dysgwyr yn deall defnydd a chyfyngiadau adnoddau a dewisiadau amgen cynaliadwy, gan gynnwys defnyddio pren ardystiedig y Rhaglen er Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC)/Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC).

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddeunyddiau a ffitiadau i'w dewis a'u defnyddio mewn lleoliadau penodol, a pha mor addas ydynt i'w gosod:

- y drws cywir o restr o ddrysau
- y mowldinau addurniadol i'w defnyddio o fanyleb
- y nwyddau haearn cywir o restr drysau/ffenestri
- y deunyddiau sydd eu hangen i adeiladu amgaeadau gwasanaeth mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ardaloedd lle ceir llawer o leithder, inswleiddio acwstig ar gyfer gwasanaethau plymio, paneli mynediad
- deunyddiau cladin i'w defnyddio y tu mewn neu'r tu allan, gorffeniadau addurniadol a strwythurol
- y deunyddiau cywir ar gyfer ffitio colofnres lawn gan gynnwys adlynion, ffitiadau mecanyddol a hoelbrennau darforio.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau penodol, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a ganfuwyd yn y man darparu ac yn ystod y broses adeiladu. Y rheini sy'n deillio o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio, ei awdurdod ei hun i gywiro a gweithdrefnau adrodd y sefydliad.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw cynnwys lleithder pren a argymhellir ar gyfer amrywiaeth o leoliadau ail ffics.

Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o uniadau i'w defnyddio i osod cydrannau ail ffics (bôn, rhigol, mortais a thyno, sgrifell a meitr).

Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o osodiadau ar gyfer cydrannau'r ail ffics, gan gynnwys hoelion (hoelion main hirgrwn (rhydd/wedi'u coladu), pengoll, piniau panel, gwaith maen, clesbyn wedi'i dorri, styffylau, polytop), sgriwiau (edau sengl, edau ddwbl,

hunan-daro, pren, peiriant, hunan-ddrilio, diogelwch), mathau o yriant pen sgriw (wedi'i stlotio, Pozidriv, Phillips, torx, hex/Allen), mathau o siâp pen sgriw (gwrthsoddedig, padell gron, biwgl, drych, cwpanau, wedi'u codi), wal geudod/gwaddol (sgriw bwrdd plastr, plygiau, toglau, angorau) a wal solet (plwg a sgriw, sgriwiau concrit, bolltau sy'n ehangu, cemegol/resin), bolltau cownter a bisgedi.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, (ystod, cydosod), manylebau, rhestrau (drws, ffenestr, cegin) a gwybodaeth cynhyrchwyr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae codi archebion, archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol, gan gynnwys:

- llunio rhestr ddeunyddiau/adnoddau ar gyfer amrywiaeth o dasgau gwaith coed yr ail ffics
- llenwi ffurflen archebu.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod cydrannau gwaith coed yr ail ffics a'r dull cywir o weithio sydd ei angen i gyflawni tasgau'n ddiogel. Peryglon a risgiau gan gynnwys anafiadau cyhyrysgerbydol o ganlyniad i godi, cario ac osgo gweithio gwael, effaith offer a mynd yn sownd, straen ailadroddus, toriadau, cleisiau, rhwygiadau, Syndrom dirgrynu llaw a braich (HAVs) o ganlyniad i ddefnyddio peiriannau llaw sy'n dirgrynu, cyflwr bysedd gwyn VWF, Syndrom Raynaud, Syndrom twnnel y carpws), sylweddau sy'n effeithio ar y llygaid, y trwyn, gwddf a chroen, sylweddau carsinogenaidd, nam ar y clyw o ganlyniad i sŵn peiriannau.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall y dulliau a ddefnyddir ar gyfer gosod cydrannau gwaith coed yr ail ffics a'r weithdrefn i'w dilyn i roi gwybod am broblem a ganfuwyd, gan sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn cael gwybod.

Cydrannau'r ail ffics fel y'i rhestrir yn 1.1 ar gyfer:

- drysau sy'n cael eu rhoi y sownd o'r ochr
- mowldinau addurniadol
- nwyddau haearn
- amgaeadau gwasanaeth
- unedau neu ffitiadau parod gan gynnwys arwynebau gwaith â chilfachau ac agorfeydd
- cladin neu baneli
- cydrannau grisiau.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut dewis, defnyddio, miniogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel a gwirio, storio a chynnal a chadw cyfarpar sydd ei angen i osod cydrannau gwaith coed yr ail ffics a sut i gofnodi unrhyw ddiffygion.

Offer a chyfarpar:

- Offer a chyfarpar llaw - llifiau (llaw, copin, panel, hac, llif tynnu Japan), cyfarpar mesur (tapiau a phrennau mesur), sgwariau (cyfuniad, sgwaryn profi), befel llithro, medr marcio, mynawyd, sgriwdreifars (gyriant wedi'i slotio Pozidriv, Phillips, torx, hex/Allen), morthwylion (hollt, pin a gordd), cynion (ymyl befel, cornel), cerrig hogi, tyllwyr hoelion, pinswyr, plaenau (llyfnhau, bloc a jac), lefelau (saer, cwch), llinell linyn, llinell sialc, sgrafellau, cyllell docio y gellir ei thynnu'n ôl. Bitiau dril, (TCT, bit

dril “jobber”/tro HSS, taradr, rhaw, gwrthdyllu, gwrthsoddydd), clampiau, papurau sgraffinio, blociau sandio

- Offer a chyfarpar pŵer - llif (torri, bwrdd, cylch/trac, jig), aml-dorrwr, hoeliwr main, sandwyr (orbitol a belt), dril/gyrrwr, llwybryddion, torwyr a jigiau (cownter, bwrdd draenio, colfach, clo), plaeniwr
- Cyfarpar mynediad - hop-yps, sgaffald tŵr symudol/sefydlog, ysgolion, ysgolion bach, stolion llif.

## Deilliant dysgu

**3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol**

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio, torri, ffitio, gorffen, lleoli a sicrhau deunyddiau

**3.2** Dewis, defnyddio a chynnal offer llaw ac offer pŵer i osod o leiaf **bump** o’r canlynol yn unol â’r cyfarwyddiadau gwaith a roddwyd:

- drysau sy’n cael eu rhoi y sownd o'r ochr
- mowldinau
- nwyddau haearn
- amgaeadau gwasanaeth
- unedau neu ffitiadau parod
- cladin neu baneli
- cydrannau grisiau.

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1 a 3.2**

**Bydd dysgwyr yn gallu dehongli gwybodaeth a roddir er mwyn:**

- ffitio a gosod drws crog ochr
- torri a ffitio amrywiaeth o fowldinau addurniadol (architraf, sgyrtin) gyda chilfachau ac onglau mewnol ac allanol
- gosod amrywiaeth o waith haearn sydd ar gael yn fasnachol
- saernïo a gosod amgaead gwasanaeth i gynnwys gorchuddion a phanel(au) mynediad
- amlinellu a gosod unedau neu ffitiadau parod gan gynnwys unedau sylfaen, unedau wal, cownteri, paneli addurniadol, a mowldinau wedi’u proffilio
- ffitio a gosod amrywiaeth o gladin neu baneli waliau mewnol neu allanol
- amlinellu, torri a ffitio colofnresi llawn gan gydymffurfio â’r rheoliadau adeiladu.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn deddfwriaeth a chanllawiau, diogelu'r ardal waith a dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod yn ddiogel, defnyddio a chynnal a chadw gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trafod yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith glir a thaclus, gwaredu gwastraff a chwblhau gwaith yn unol â'r rhaglen waith.

DRAFFT

# Uned 262: Codi cydrannau fframwaith strwythurol

| GLH: | 70 |
|---|---|

## Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae’r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar, a mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol. Mae’n ymwneud â gosod a ffitio cydrannau fframwaith strwythurol ar gyfer toeau a lloriau.

Ar ôl cwblhau’r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol.

Gellir cyflwyno dysgwyr i’r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw fframwaith strwythurol?
- Beth mae graddio straen yn ei olygu?
- Beth yw llwyth deinamig?
- Pam mae mur rhidyllu yn llawn tyllau?
- Pa gyfarpar diogelu personol (PPE) sydd ei angen arnaf wrth weithio ar uchder?

DRAFT

## Deilliant dysgu

**1. Deall y broses o ddewis adnoddau**

## Meini Prawf

**1.1** Nodweddion yr adnoddau
Ystod: nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

**1.2** Defnyddio adnoddau
Ystod: defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

**1.3** Gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer dewis adnoddau
Ystod: gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

**1.4** Peryglon
Ystod: peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

**2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract**

## Meini Prawf

**2.1** Dulliau gweithio
Ystod: cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

**2.2** Offer a chyfarpar
Ystod: dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

DRAFT

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn deall nodweddion, ansawdd, addasrwydd a maint deunyddiau sydd ar gael yn fasnachol wrth ddewis adnoddau ar gyfer gosod cydrannau fframwaith strwythurol, gan gynnwys:

- toeau ceibr cypledig ar oleddf gyda thalcenni - pren wedi'i raddio yn ôl straen (C16 a C24), meintiau pren (dimensiynau pren safon Lumber Canada (CLS), pren wedi'i safoni, hyd pren safonol mewn cynyddrannau 300 mm) deunyddiau dalen (Bwrdd Fflawiau Cyfeiriedig (OSB), pren haenog, bwrdd sglodion a thrwch a maint safonol)
- parwydydd sy'n cynnal llwythi - pren wedi'i raddio yn ôl straen, meintiau pren
- distiau (llawr, uwch neu do gwastad), gan gynnwys gorchuddion (toeon gwastad, deciau oer a phoeth, neu loriau) - pren wedi'i raddio â straen, meintiau pren, gwydnwch deunyddiau decin (pren haenog, OSB, bwrdd sglodion)
- inswleiddio toeau, parwydydd a lloriau (gwydr ffibr a rholiau gwlân mwynol a batiau, Polyisosyanwrad (PIR), bwrdd ffenolig, gwlân defaid).

Bydd dysgwyr yn deall y llwythi y gellir eu gosod ar strwythur (byw, marw, deinamig) ac yn

gwybod ble i gael yr wybodaeth hon am feintiau pren (tablau rhychwant).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod diffygion sy'n gallu effeithio ar gyfanrwydd y strwythur (clymau, rhaniadau, ysgytiadau, cyfeiriad y gronynnau a'r rheini sy'n effeithio ar yr estheteg yn unig (staen glas, diliwio Uwchfioled (UV)). Sut mae cywiro a gweithio gyda diffygion a nodwyd (lleoliad toriadau, defnyddio'r wyneb gorau, cambrau'n wynebu'r un ffordd/am i fyny, clymau ar ymyl uchaf distiau).

Bydd dysgwyr yn deall defnydd a chyfyngiadau adnoddau a dewisiadau amgen cynaliadwy, gan gynnwys defnyddio pren ardystiedig y Rhaglen er Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC)/Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC).

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod pa ddeunyddiau a ffitiadau i'w defnyddio mewn lleoliadau penodol, gan gynnwys:

- mathau o geibrennau cypledig (ffinc, ffan, atig, howe, brenhinbost, banonbost, gostyngol, goleddf mono a deuol, panel sbandrel, hytrawst), terminoleg trawstiau (cordiau/ceibrennau uchaf, distiau llinyn gwaelod/nenfwd, pwyslathau, hongwyr, pwyntiau nod, troed), ysgolion talcen, cydrannau sy'n ffurfio toeau trawst: clipiau cypledig a hongwyr, strapiau atal, cleddau (hydredol, croeslinol (gwynt), onglog, plât wal, nogins, platiau hoelion gweddog
- cydrannau sy'n ffurfio pared sy'n cynnal llwythi - pen, platwadn, stydiau, nogins, stydiau cripl/ysbwrlath, stydiau Jack, linteli, gorchudd
- cydrannau sy'n ffurfio lloriau gwaelod ac uchaf a thoeon gwastad - waliau bach, distiau (pontio, trimiwr, tocio, trimio), pwyslathau (saethbennu a solet), ffirinau a ffiledi, cleddau, gwaith metel (strapiau (ataliad ochrol, plât wal), hongwyr distiau, clipiau cypledig, pwyslathau saethben perchnogol, bolltau a wasieri), pilenni, Cwrs Atal Lleithder (DPC), deunydd inswleiddio a gorchuddion distiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod am broblemau gydag adnoddau penodol, gan gynnwys deunyddiau diffygiol a ganfuwyd yn y man darparu ac yn ystod y broses adeiladu. Y rheini sy'n deillio o wybodaeth, adnoddau a dulliau gweithio, ei awdurdod ei hun i gywiro a gweithdrefnau adrodd y sefydliad.

Bydd dysgwyr yn gwybod am uniadau i'w defnyddio ar gyfer amrywiaeth o gydrannau fframwaith strwythurol, gan gynnwys bôn, rhigol, tafod a rhych, pennyn, glin, defnyddio gosodiadau perchnogol/gwaith metel ee hongwyr distiau a chlipiau'r trawstiau).

Bydd dysgwyr yn gwybod am amrywiaeth o osodiadau ar gyfer cydrannau fframwaith strwythurol, gan gynnwys hoelion (rhydd/wedi'u coladu), (hoelion garan cylch galfanedig a llachar cyffredin, hoelion main hirgrwn, pennau coll, gwaith maen, hoelion llorio, troi), sgriwiau (edau sengl, edau ddwbl, pren, hunan-ddrilio), mathau o yriant pen sgriw (wedi'i slotio, Pozidriv, Phillips, torx, hex/Allen), gosodiadau waliau solet (plygiau a sgriwiau, sgriwiau concrid, bollt sy'n ehangu, cemegol/resin), bracedi perchnogol, bolltau, bar wedi'i edafu, nytiau a wasieri.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y broses ar gyfer dewis deunyddiau gan ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth dechnegol gan gynnwys lluniadau, manylebau, rhestrau a gwybodaeth gwneuthurwyr.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae codi archebion, archebu adnoddau i gyflawni tasg benodol gan ddefnyddio gweithdrefnau sefydliadol, gan gynnwys:

- llunio rhestr o ddeunyddiau/ adnoddau ar gyfer amrywiaeth o dasgau gwaith coed fframwaith strwythurol
- llenwi ffurflen archebu.

**1.4** Bydd dysgwyr yn deall y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gosod cydrannau fframwaith strwythurol a'r dull cywir o weithio sydd ei angen i gyflawni tasgau'n ddiogel. Peryglon a risgiau gan gynnwys anafiadau cyhyrysgerbydol o ganlyniad i godi, cario ac osgo gweithio gwael, effaith offer a mynd yn sownd, straen ailadroddus, toriadau, cleisiau, rhwygiadau, cael eich gwasgu, Syndrom dirgrynu llaw a braich (HAVs) o ganlyniad i ddefnyddio peiriannau llaw sy'n dirgrynu (cyflwr bysedd gwyn (VWF), Syndrom Raynaud, Syndrom Twnnel y carpws), sylweddau sy'n effeithio ar y llygaid, y trwyn, y gwddf a'r croen, sylweddau carsinogenaidd, nam ar y clyw o ganlyniad i sŵn peiriannau.

**Deilliant 2**

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall y dulliau a ddefnyddir ar gyfer gosod cydrannau fframwaith strwythurol a'r weithdrefn i'w dilyn i roi gwybod am broblem a ganfuwyd, gan sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn cael gwybod.

Cydrannau fframwaith strwythurol fel y'i rhestrir yn 1.1 ar gyfer:
- toeau ceibr cypledig ar oleddf gyda thalcennau
- parwydydd sy'n cynnal llwythi
- distiau (llawr, uchaf neu do gwastad), gan gynnwys gorchuddion.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio, miniogi, cynnal a chadw a storio offer llaw a phŵer yn ddiogel, gwirio, storio a chynnal a chadw cyfarpar sydd ei angen i osod cydrannau fframwaith strwythurol gan gynnwys systemau sgaffald ac atal cwympo, a chofnodi unrhyw ddiffygion.

Offer a chyfarpar:
- Offer a chyfarpar llaw - llifiau llaw, cyfarpar mesur (tapiau a phrennau mesur), sgwariau (cyfuniad, sgwaryn profi, befel llithro), sgriwdreifers (gyriant wedi'i slotio, Pozidriv, Phillips, torx, hex/Allen), morthwylion (hollt, fframio), cynion befel, carreg finiogi, pinswyr, plaenau, lefelau (laser, saer, cwch), llinell linyn, llinell sialc, bitiau dril (TCT, bit dril "jobber"/tro HSS, taradr, rhaw, gwrthdyllu, gwrthsoddydd), clampiau
- Offer a chyfarpar pŵer - llif (torri, crwn, jig), aml-dorrwr, hoeliwr ffics cyntaf/fframio, hoeliwr lleoliad union (PPN), dril/gyrrwr, plaeniwr
- Cyfarpar mynediad - hop-yps, sgaffald tŵr symudol/sefydlog, ysgolion, ysgolion bach, stolion llif, sgaffaldiau annibynnol, sgaffaldiau cawell adar/decin disgyn.

## Deilliant dysgu

**3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yn unol â'r fanyleb ofynnol**

## Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gwaith i fesur, marcio, torri, ffitio, gorffen, lleoli a sicrhau deunyddiau

**3.2** Dewis, defnyddio a chynnal offer llaw ac offer pŵer i osod o leiaf **un** o'r canlynol yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddwyd:

- toeau ceibr cypledig ar oleddf gyda thalcennau
- parwydydd sy'n cynnal llwythi
- distiau (gwaelod, uchaf neu do gwastad), gan gynnwys gorchuddion (toeau gwastad, deciau, neu loriau).

**Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

**Deilliant 3**

**3.1 a 3.2**

**Bydd dysgwyr yn gallu dehongli gwybodaeth a roddir er mwyn:**

- gosod a chodi to ceibr cypledig ar oleddf gyda thalcenni
- gosod, torri a gosod parwydydd sy'n cynnal llwythi, gan gynnwys agoriadau a gorchudd
- torri a ffitio gorchuddion distiau llawr, un ai:
  - lloriau gwaelod crog pren gyda gorchuddion distiau
  - lloriau uchaf gydag agoriadau wedi'u trimio gyda gorchuddion distiau
  - toeau gwastad gyda ffirinau a ffiledi gyda gorchuddion distiau.

Bydd dysgwyr yn gallu dilyn deddfwriaeth a chanllawiau, diogelu'r ardal waith a dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, gosod yn ddiogel, defnyddio a chynnal a chadw gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig.

Bydd dysgwyr yn gallu dewis, trafod yn ddiogel, pentyrru a storio adnoddau gan ddefnyddio technegau codi a chario cywir.

Bydd dysgwyr yn gallu cynnal ardal waith glir a thaclus, gwaredu gwastraff a chwblhau gwaith yn unol â'r rhaglen waith.

DRAFT

## Cysylltu â ni

### City & Guilds
E-bost: skillsforwales.customer@cityandguilds.com

### EAL
E-bost: skillsforwales.customer@eal.org.uk
Ffôn: 01924 930800
Llinellau ar agor: Dydd Llun i ddydd Gwener 08.00 i 18.00 GMT

### City & Guilds | EAL
Mae City & Guilds ac EAL yn ddau gorff dyfarnu sydd wedi dod ynghyd i gydweithio ar ddatblygu cyfres o gymwysterau adeiladu a pheirianneg gwasanaethau adeiladu i Gymru.

Mae gennym bron 150 mlynedd o brofiad o ddatblygu cymwysterau ac asesiadau yn y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mae City & Guilds ac EAL wedi rhannu perthynas wych erioed, felly mae hon wir yn bartneriaeth â hanes o lwyddo sy'n canolbwyntio'n llwyr ar helpu'r sector i wireddu potensial y sector yn y dyfodol.

Rydyn ni'n credu'n gryf mewn grymuso pobl gyda chyfleoedd ar gyfer y dyfodol, a'n nodau ar gyfer y gyfres newydd hon o gymwysterau yw helpu pobl i gael gwaith, i gamu ymlaen yn y gwaith ac i fynd ymhellach.

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn wir ac yn gywir wrth fynd i'r wasg. Fodd bynnag, mae cynnyrch a gwasanaethau City & Guilds/EAL yn cael eu datblygu a'u gwella'n barhaus, a chedwir yr hawl i newid cynnyrch a gwasanaethau o bryd i'w gilydd.
Ni all City & Guilds/EAL dderbyn atebolrwydd am golled neu ddifrod sy'n deillio o ddefnyddio gwybodaeth yn y cyhoeddiad hwn.

©2026 City & Guilds Limited (Rhif Cofrestru 16513878). Cedwir pob hawl. Mae City & Guilds yn nod masnach City & Guilds Limited.

EAL (Excellence, Achievement and Learning Limited)
Rhif Cofrestru yng Nghymru a Lloegr 02700780
Swyddfa gofrestredig: EAL, Lytchett House, 13 Freeland Park, Wareham Road, Poole, Dorset, BH16 6FA

skillsforwales.wales

DRAFT